

Annwyl Aelod

## AELODAETH MEDRWN MÔN

Rydym yn diweddarau ein cronfa ddata bob dwy flynedd ac rydym yn cysylltu â chi gan fod eich mudiad neu'ch grŵp wedi derbyn cefnogaeth neu wasanaeth gennym ni yn y gorffennol. Hoffem wybod os hoffai eich sefydliad neu grŵp gofrestru fel aelod o Medrwn Môn, yn rhad ac am ddim.

Mae aelodaeth lawn ar gael i fudiadau/grwpiau gwirfoddol a chymunedol wedi'u lleoli a/neu'n weithredol ar Ynys Môn. Os yw eich mudiad/grŵp yn gymwys i fod yn aelod llawn o Medrwn Môn, mae ganddi'r hawl i:

- Hawliau pleidleisio llawn a fydd yn eich galluogi i fynychu Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol Medrwn Môn, enwebu aelodau o'ch mudiad i eistedd ar Fwrdd Rheoli Medrwn Môn ac ethol aelodau i Fwrdd Rheoli Medrwn Môn
- Derbyn gwybodaeth reolaidd am gyfarfodydd y Bwrdd drwy ein llythyr aelod
- Derbyn gwybodaeth gyson, ddefnyddiol ar gyfer eich grŵp gan gynnwys ein e-fwletin chwarterol
- Cysylltiad â grwpiau tebyg drwy ddigwyddiadau chwarterol Rhwydwaith y Trydydd Sector
- Hyfforddiant defnyddiol ar gyfradd is
- Cyfraddau is ar gyfer llungopïo
- Cyfieithu am ddim hyd at 100 gair
- Rhybudd o flaen llaw am roddion o offer a dodrefn
- Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli eich mudiad
- Cyngor a gwybodaeth am ddim am gyllid
- Derbyn cefnogaeth ar faterion gwirfoddoli
- Sbotolau ar eich grwpiau ar ein cyfryngau cymdeithasol

Mae Aelodaeth Gysylltiol ar gael i fudiadau na all fod yn aelodau llawn e.e. mudiadau cenedlaethol, busnesau statudol neu unigolion a gallwch:

- Derbyn gwybodaeth am y sector Gwirfoddol a chymunedol ar Ynys Môn drwy ein e-fwletin, a chael mynediad i'n gwefan bwrpasol, [www.medrwnmon.org](http://www.medrwnmon.org) gyda gwybodaeth gyfredol am yr holl faterion sy'n ymwneud â'r sector ar Ynys Môn.
- Gwahoddiadau i'n digwyddiadau

Byddem yn falch iawn o'ch croesawu i ymuno â nifer o grwpiau a mudiadau eraill ar yr ynys sydd eisoes yn aelodau gyda Medrwn Môn ac yn mwynhau manteision y gwasanaethau uchod a gynigir.

Trafodwch yr uchod gydag aelodau eich mudiad neu grŵp ac ystyriwch os hoffech chi gofrestru fel aelod o Medrwn Môn.

Os hoffech chi gofrestru fel aelod, cwblhewch y ffurflen gofrestru amgaaedig a'i hanfon yn ôl atom gan ddefnyddio'r amlen rhabost erbyn .....

Gallwch hefyd lenwi'r ffurflen ar-lein yma neu gysylltu ag aelod o staff i'w llenwi dros y ffôn ar 01248 724944.

## CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL Môn

### POLISI AELODAETH Medrwn Môn 2022/23

#### 1) Datganiad

Medrwn Môn yw'r corff ymbarél a chymorth ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol (y trydydd sector) yn Ynys Môn. Fel y corff ymbarél lleol, mae'n darparu ystod o wasanaethau cymorth ac yn gweithio i sicrhau bod y 'trydydd sector' yn cael ei gynrychioli'n briodol ac yn gallu cyfrannu at gynllunio lleol a datblygu gwasanaethau. Mae Medrwn Môn wedi ymrwymo i adeiladu sylfaen aelodaeth eang i adlewyrchu amrywiaeth y sector ac i sicrhau ei fod yn atebol i'w aelodau.

#### 2) Rheolau ac is-ddeddfau

O dan Fwrdd Erthygl 24 gall yr Ymddiriedolwyr wneud rheolau ac is-ddeddfau sy'n llywodraethu pob agwedd ar aelodaeth, gan gynnwys: derbyn; hawliau a breintiau; amodau a thelerau; ffioedd/taliadau; gwrthod, tynnu'n ôl neu atal aelodaeth.

#### 3) Categoriâu Aelodaeth

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi dynodi'r categorïau aelodaeth a ganlyn:

##### **Llaw**

Ar gael i fudiadau/grwpiau gwirfoddol/cymunedol sy'n gweithredu ym Medrwn Môn sy'n cefnogi gwaith Medrwn Môn. Bydd gan aelodau llawn yr hawliau canlynol:

- (i) enwebu ymgeiswyr i'w hethol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac i bleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol.
- (ii) derbyn hysbysiad o bob cyfarfod cyffredinol; a
- (iii) gosod penderfyniadau gerbron cyfarfodydd cyffredinol.

## Cysylltol

Unigol - ar gael i unigolion sy'n cefnogi gwaith Medrwn Môn.

Sefydliadol - ar gael i sefydliadau na allant fod yn aelodau llawn, e.e., sefydliadau busnes a statudol, ond sy'n cefnogi Medrwn Môn.

Bydd gan aelodau cyswllt yr hawliau canlynol:

- (i) derbyn hysbysiad o bob cyfarfod cyffredinol; a
- (ii) mynychu a siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol

## 4) Amodau Aelodaeth

Pob aelod:

- (i) rhaid iddo gefnogi nodau a gwerthoedd Medrwn Môn fel y nodir yn ei Erthyglau Cymdeithas a'i bolisiâu a gweithdrefnau ategol.
- (ii) llenwi ffurflen gais aelodaeth yn llawn, gan gynnwys nodi eu hoffterau cyswllt, fel y gall Medrwn Môn gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
- (iii) cael eu cais aelodaeth wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Medrwn Môn.

## Aelodau Llawn:

Rhaid i fudiadau 3ydd Sector sy'n gwneud cais am aelodaeth lawn hefyd ddarparu copi o'u dogfen lywodraethu gyfredol (cyfansoddiad/rheolau).

## 5) Buddion i Aelodau

Bydd Medrwn Môn yn darparu'r buddion canlynol i aelodau:

- eich galluogi i fynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Medrwn Môn, enwebu aelodau o'ch sefydliad i eistedd ar Fwrdd Rheoli Medrwn Môn a
- ethol aelodau i Fwrdd Rheoli Medrwn Môn.
- Derbyn gwybodaeth reolaidd am gyfarfodydd y Bwrdd trwy ein llythyr aelod
- Derbyn gwybodaeth gyson, ddefnyddiol ar gyfer eich grŵp, gan gynnwys ein e-fwletin chwarterol.
- Cael cyswllt â grwpiau tebyg trwy ddigwyddiadau Rhwydweithio Trydydd Sector chwarterol.
- Hyfforddiant defnyddiol ar gyfradd is
- Cyfraddau is ar gyfer llungopio
- Cyfieithu am ddim hyd at 100 gair
- Hysbysiad ymlaen llaw am roddion offer a dodrefn
- Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli eich mudiad.
- Cyngor a gwybodaeth am ddim ar gyllido.
- Derbyn cefnogaeth ar faterion gwirfoddoli
- Sbotolau i grwpiau ar ein cyfryngau cymdeithasol.

## 7) Blwyddyn Aelodaeth

Bydd blwyddyn aelodaeth yn rhedeg o 1 Ebrill hyd at y 31 Mawrth canlynol. Rhoddir rhybudd da i aelodau adnewyddu eu haelodaeth.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch â Medrwn Môn ar  
01248 724944 E-bost: [post@medrwnmon.org](mailto:post@medrwnmon.org)

## Dewisiadau Cyfathrebu

Gall Medrwn Môn gysylltu â mi/ni drwy:

Post Ia  Na  Ffonio Ia  Na  E-bost Ia  Na

E-bost yw ein prif sianel gyfathrebu. Dewiswch “ie” i “E-bost” i wneud y mwyaf o fuddion aelodau

## Dewisiadau Trydydd Parti

Mae unigolion, sefydliadau ac awdurdodau statudol yn cysylltu'n aml â Medrwn Môn sydd eisieu gwybod am, neu gysylltu â, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn Ynys Môn. Os bydd Medrwn Môn yn ystyried y bydd y cyswllt hwn o fudd neu o ddiddordeb i'ch sefydliad, mae angen eich caniatâd arnom i rannu eich manylion gyda nhw.

Rwyf i/Rydym yn rhoi ein caniatâd i Medrwn Môn rannu ein manylion (\*Eitemau wedi'u marcio), yn amodol ar ddewisiadau cyfathrebu fel y disgrifir uchod â:

Rhannu trydydd parti (Rhannu gwybodaeth i drydydd parti) Ia  Na

## Datganiad:

Rwyf i/Rydym ni wedi darllen a deall y Polisi Aelodaeth ac yn dymuno gwneud cais am aelodaeth.

Rwyf i/Rydym ni wedi darllen a deall y Datganiad Preifatrwydd.

Rwyf i/Rydym yn cytuno i hysbysu Medrwn Môn am unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon. **Os ydych yn gwneud cais i fod yn Aelod Llawn am y tro cyntaf, cynhwyswch gopi o'ch Cyfansoddiad/Rheolau. Ni allwn dderbyn eich cais heb hyn.**

Llofnod:

Dyddiad:

Printiwch eich enw:

Rôl:

Dychwelwch y Ffurflen Gofrestru hon wedi'i chwblhau at: [post@medrwnmon.org](mailto:post@medrwnmon.org) Neu drwy'r post i: Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, Llangefni LL77 7LR (RHADBOST- RTBJ-YJK-ACZE)

## Datganiad Preifatrwydd

### Ffurflen Aelodaeth Medrwn Môn

**Cyflwyniad:** Mae Medrwn Môn wedi ymrwymo i warchod a pharchu eich preifatrwydd.

**Pa ddata personol a gasglwn:** Gallwch roi gwybodaeth i ni amdanoch wrth gofrestru eich sefydliad neu eich hun i fod yn aelod, neu drwy lenwi ffurflenni mewn digwyddiad neu ar-lein, neu drwy ohebu â ni dros y ffôn, drwy e-bost neu fel arall. Gall y wybodaeth hon gynnwys eich enw, manylion eich sefydliad gan gynnwys cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a gwybodaeth fwy penodol.

**Pam mae angen eich data personol arnom a sut rydym yn ei ddefnyddio:** Mae angen eich data arnom i allu darparu gwasanaeth aelodaeth i chi. Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol yw bod gennym ddi-ddordeb cyfreithlon i weinyddu a darparu'r gwasanaethau yr ydych yn cofrestru ar eu cyfer gan gynnwys gwahoddiadau i gyfarfodydd, anfon cylchlythyrau, diweddarau tanysgrifiad blynyddol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn gyffredinol a allai fod yn berthnasol i'ch sefydliad.

**Datgelu a rhannu eich data personol:** Fel arall, na nodir yn y polisi hwn ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i unrhyw drydydd parti. Nid ydym yn gwerthu nac yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol am resymau hysbysebu neu fasnachol eraill. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n fewnol gan Medrwn Môn wrth weinyddu ei aelodaeth, wrth ateb ymholiadau a bydd ar gael i'r asiantaethau hynny sy'n gweithio mewn partneriaeth â Medrwn Môn, lle bo'n briodol, gallwn rannu data dienw gyda'n partneriaid fel amod o'n telerau ariannu neu debyg ar gyfer adrodd ar wybodaeth ddienw mewn cyhoeddiadau fel yr Adroddiad Effaith Blynyddol. Gall Medrwn Môn ddarparu gwybodaeth am ba grwpiau / sefydliadau sydd ar gael mewn ardal ond dim ond pan fydd gennym eich caniatâd fel y gofynnir yn benodol ar y Ffurflen Cofrestru Aelodaeth.

**Sut rydym yn cadw eich data personol:** Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol angenrheidiol i sicrhau bod eich data'n cael ei drin yn ddiogel ac yn unol â'r datganiad preifatrwydd hwn.

**Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol:** Ni fydd eich data'n cael ei gadw'n hwy nag sydd angen

Bydd eich data personol yn cael ei waredu mewn modd diogel ac amserol yn unol â RhCDD .

### **Eich hawliau o ran eich data personol: Fel gwrthrych data efallai fod gennych chi**

Yr hawl i **gael gwybod** bod prosesu yn cael ei wneud,

Yr hawl i **gael mynediad** at eich Data Personol

Yr hawl i **gyfyngu ar brosesu** dan rai amgylchiadau

Yr hawl i **gywiro** os yw data yn anghywir neu heb fod yn gyflawn,

Yr hawl i **ddileu** gwybodaeth oni bai bod rhesymau pwysig i ni ei chadw

Yr hawl i **gludadwyedd data** copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch.

Yr hawl i **wrthwynebu'r** ffordd rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth (gweler isod).

Yr hawl i **beidio â bod yn destun penderfyniadau** awtomataidd gan gynnwys proffilio

# Medrwn Môn

Neuadd y Dref / Town Hall  
Sgwar Bulkeley Square  
Llangefni  
Ynys Mon / LL77 7LR  
01248 724944

Cadeirydd / Chair – Andrew Mark Hughes  
Prif Swyddog / Chief Officer – Sian C Purcell  
Prif Swyddog dros dro / Interim Chief Officer – Lyndsey C Williams

Rhif Elusen / Charity Number – 1088828  
Rhif Cwmni / Company Number - 4197934

Fel gwrthrych data nid oes rheidrwydd arnoch i rannu eich data personol gyda Medrwn Môn. Os byddwch yn dewis peidio â rhannu eich data personol â ni, efallai na fyddwn yn gallu darparu rhai gwasanaethau i chi.

**Sut i gysylltu â ni:** Gallwch benderfynu peidio â derbyn cyfathrebiadau neu newid sut rydym yn cysylltu â chi ar unrhyw adeg. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein datganiad preifatrwydd neu wybodaeth sydd gennym amdanoch chi: Ffôn: 01248 724944  
post@medrwnmon.org

**Sut i Gwyno:** Os ydych yn teimlo bod eich data personol wedi'i gam-drin, gallwch wneud cwyn i swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth drwy fynd i'w gwefan neu ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

---

Cefnogi Gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol ar Ynys Mon  
Supporting Volunteering, community groups and voluntary organisations on Anglesey



